MENTERA

# Manyleb y Swydd

**Teitl y Swydd:** Rheolwr Sector (Cymysg)
**Prosiect:** Cyswllt Ffermio
**Adran:** Gwledig
**Rheolwr Llinell:** Pennaeth Technegol
**Contract:** 0.6 FTE
**Cyflog**: £40,833
**Sgiliau Dwyieithog:** Dymunol Iawn

## Nod

Cefnogi'r gwaith strategol o gyflawni rhwydwaith Ein Ffermydd, sy'n rhwydwaith proffil uchel, drwy reoli'r swyddogion sector a threialon ar ffermydd yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a rhaglen Cyswllt Ffermio. Cyfrifoldeb rheoli llinell dros y swyddogion sector o fewn y tîm, gan gyflymu'r broses o fabwysiadu'r rhaglen trosglwyddo gwybodaeth.

## Prif Gyfrifoldebau

- Cyfrannu at arweinyddiaeth tîm sy'n perfformio'n dda drwy gymell a datblygu'r swyddogion trosglwyddo gwybodaeth i sicrhau bod datblygiadau'r prosiectau yn cyd-fynd i gyflymu'r dull cam wrth gam ar draws rhaglen Cyswllt Ffermio.
- Arwain a **rheoli'r swyddog sector cymysg**, gan sicrhau bod targedau'n cael eu bodloni i safon uchel wrth nodi ac unioni problemau mewn modd amserol a phroffesiynol.
- Disgwylir i'r sawl fydd yn dal y swydd reoli cyllidebau ar gyfer prosiectau a meysydd gwaith y mae'n gweithio arnynt, a sicrhau bod prosiectau'n rhedeg yn unol â'r gyllideb ac adrodd am amrywiadau'n brydlon; mae'n debygol y bydd ganddo **awdurdod cyllidebol** a rhaid iddo sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi caffael a chanllawiau fframwaith Mentera ar draws ei dîm.
- Arwain ar lunio gweithgarwch sy'n benodol i'r sector, datblygu a chyflawni yn unol â gofynion rhwydwaith arddangos y rhaglen Cyswllt Ffermio, gan gynnwys recriwtio a datblygu astudiaethau llinell sylfaen ffermydd Arddangos, prosiectau, treialon, digwyddiadau ac ecsbloetio llwybrau trosglwyddo gwybodaeth eraill gan sicrhau nad oes dyblygu ond, yn hytrach, gyfatebolrwydd gwell rhwng prosiectau a'u bod yn diwallu anghenion y gymuned leol.
- Arwain ar y fferm arddangos âr, gan sicrhau bod treialon yn cyd-fynd â gweithgarwch arall yn y diwydiant i wneud y mwyaf o gydweithio er mwyn sicrhau mwy o werth, gan gynnwys:

  - Cynllunio'r broses o ddatblygu, gweithredu a chydlynu prosiectau'r Rhwydwaith Ein Ffermydd ar y cyd â'r arbenigwr diwydiant a benodir, gan sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu ond, yn hytrach, gyfatebolrwydd gwell rhwng prosiectau.
  - Datblygu cynigion prosiect (i gynnwys methodoleg gwerthuso) ar y cyd â'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth trwy drafodaethau parhaus a chynnwys adolygiadau o ddeunydd darllen/argymhellion ar gyfer cynigion prosiect yn ôl yr angen.
  - Amlinellu cerrig milltir ac amcanion clir a chyraeddadwy'r prosiectau.
  - Cydlynu gweithgareddau gwaith ac olrhain cerrig milltir ac amcanion drwy system Ein Ffermydd yn y System Rheoli Cyflawni a nodi a darparu atebion i unioni problemau mewn modd amserol a phroffesiynol.
- Helpu gyda'r gwaith o reoli'r Cyllid Arbrofi yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod cynigion prosiect yn cael eu datblygu ar y cyd â'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth trwy drafodaethau parhaus ac ymgorffori adolygiadau o ddeunydd darllen/argymhellion ar gyfer cynigion prosiect yn ôl y gofyn.
- Goruchwylio'r gwaith o reoli prosiectau'r sector, gan sicrhau eu bod yn cael eu monitro yn erbyn cerrig milltir a'u gwerthuso'n briodol yn erbyn y cynllun gwerthuso.
- Cysylltu â chyd-weithwyr/contractwyr allanol, ffermwyr a choedwigwyr.
- Nodi ac unioni problemau mewn modd amserol a phroffesiynol.
- Sicrhau bod strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru yn cael eu hymgorffori wrth gyflawni'r rhaglen.
- Monitro ac adrodd ar gynnydd, gan gynnwys arwain a pharatoi gwybodaeth ar gyfer y dangosfyrddau, ceisiadau am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru, a diweddariadau'r diwydiant.
- Mynd ati'n rhagweithiol i adnabod cyfleoedd newydd ar gyfer gwaith ymchwil, treialon ar ffermydd, a throsglwyddo gwybodaeth.
- Chwilio am gyfleoedd i godi proffil gwaith y tîm technegol a gwaith Mentera i ddatblygu partneriaethau gwaith cydweithredol, gan gynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau a gynhelir gan randdeiliaid allanol; ar lwyfannau cenedlaethol (a rhyngwladol lle bo'n berthnasol).
- Sicrhau bod y tîm yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd ehangach Cyswllt Ffermio a hyrwyddo ei waith, gan sicrhau bod y mewnbwn a'r gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhaglen Cyswllt Ffermio.
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r sectorau amaethyddol yng Nghymru yn barhaus, gyda'r gallu i nodi a dadansoddi'r wybodaeth a'r gwaith ymchwil diweddaraf sy'n berthnasol i'r sectorau hynny a'r arbenigeddau ynddynt.
- Bydd yn gweithio'n agos gyda:
  - Rheolwyr y Tîm Technegol a'r Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol, gan sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu ond, yn hytrach, gyfatebolrwydd

gwell rhwng prosiectau a'u bod yn diwallu anghenion y gymuned leol.
    - Y Rheolwr Arbenigol a Chyfnewid Gwybodaeth i sicrhau bod y tîm ehangach yn cymryd rhan, yn ôl yr angen, yn y gwaith o hyrwyddo, recriwtio, casglu data a lledaenu canlyniadau treialon Rhwydwaith Ein Ffermydd, ac yn cyd-fynd â hyn oll.
    - Y tîm Marchnata a Chyfathrebu i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hyrwyddo yn unol â'r strategaeth farchnata a chyfathrebu integredig i'r gynulleidfa darged mewn modd effeithiol ac amserol.
    - Y Swyddog Trosglwyddo Gwybodaeth i ddarparu syniadau a chynnwys, yn ôl yr angen, i ddatblygu deunyddiau trosglwyddo gwybodaeth.

**Arall**
- Sicrhau bod safonau ansawdd, gwasanaeth i gwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch, a bioddiogelwch yn cael eu bodloni.
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill yn ôl yr angen.
- Cynrychioli Mentera yn ôl yr angen.

## Sgiliau a Phrofiad

Hanfodol

- Addysg hyd at lefel gradd, neu gymhwyster cyfatebol, mewn amaethyddiaeth neu bwnc sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth.
- Profiad o reoli.
- Perthnasoedd cryf yn y cymunedau amaethyddol, trosglwyddo gwybodaeth, a gwyddonol, ac yn gallu rhwydweithio'n effeithiol.
- Profiad amlwg o weithio yn y sector penodol yn y diwydiant amaethyddol yng Nghymru.
- Cryn wybodaeth am strategaethau a pholisïau amaethyddol ac amgylcheddol a weithredir ledled Cymru, drwy Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.
- Tystiolaeth o sgiliau rheoli prosiect.
- Y gallu i ledaenu themâu, canfyddiadau ymchwil a chynnwys y rhaglen mewn modd ymarferol a chlir sy'n berthnasol i'r gynulleidfa.
- Yn gallu datblygu ac integreiddio gwasanaethau newydd mewn modd effeithiol ac amserol.
- Yn gallu gwneud penderfyniadau anodd ac amserol er budd y busnes a/neu'r gwasanaeth, gan gynnwys codi pryderon priodol yn ymwneud â chyflawni'r gwasanaeth, cyllidebau a staff/is-gontractwyr.
- Lefel uwch o sgiliau cyflwyno a rhyngbersonol.
- Yn ddatryswr problemau rhagweithiol ac yn chwaraewr tîm.

- Yn gallu cymell ei hun, a derbyn cyfrifoldeb am osod ac adolygu blaenoriaethau er mwyn cyflawni targedau, gyda phwyslais clir ar ansawdd.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol.
- Sgiliau TG rhagorol, gan gynnwys – Windows; meddalwedd cynhyrchiant (e-bost, proseswyr geiriau, taenlenni, storio ffeiliau); yn gallu defnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd yn ddiogel (chwilio a phori'r we, defnyddio gwefannau a rhaglenni ar-lein).

- Os bydd yn gweithio gartref am unrhyw gyfnod, bydd angen bod gan y sawl sy'n dal y swydd eisoes gysylltiad addas â'r rhyngrwyd.
- Trwydded yrru lawn a defnydd o gar.

Dymunol

- Yn meddu ar dystysgrif neu radd ôl-raddedig.
- Gwybodaeth am Raglen Cyswllt Ffermio.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Am sgwrs anffurfiol gallwch gysylltu â Siwan Howatson ar 07399 783 398 neu siwan.howatson@mentera.cymru

**Mae gofynion y swydd hon yn golygu ei bod wedi ei chategoreiddio fel a ganlyn:**

- **Trwydded yrru a char i'w ddefnyddio at ddibenion busnes:**
  - Diangen
  - Dymunol
  - **Hanfodol** ✓
- **Gallu yn yr iaith Gymraeg:**
  - Gwrando/Siarad: Lefel 3
  - Darllen/Deall: Lefel 3
  - Ysgrifennu: Lefel 3

*Mae Mentera yn darparu hyfforddiant sgiliau iaith i bob aelod o staff sy'n awyddus i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.*

### Sut i ymgeisio

Gallwch wneud cais am y swydd hon drwy gwblhau ffurflen gais a ffurflen cyfleoedd cyfartal a'u dychwelyd at swyddi@mentera.cymru erbyn **10 yb, dydd Iau, 12 Mawrth 2026**

**Cyfweliadau**

Byddwn yn cynnal y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon yn ein swyddfa yn Aberystwyth ar ddydd Mawrth, 17/03/26. Os nad yw'r dyddiadau yma'n gyfleus, nodwch hynny ar eich ffurflen gais os gwelwch yn dda.

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae Mentera wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chreu amgylchedd cynhwysol yn y gweithle. Rydym o'r farn y gellir gwneud hyn drwy ddenu, datblygu a chadw ystod amrywiol o bobl o lawer o gefndiroedd gwahanol. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob rhan o'r gymuned, beth bynnag fo'u rhyw, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth draws, statws perthynas, crefydd neu gred, cyfrifoldebau gofalu neu oedran. Er mwyn cefnogi ein cyflogeion i sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd personol, am rhan fwyaf o'n swyddi byddwn yn ystyried cynigion i weithio'n hyblyg neu rannu'r swydd.